Estyn
Rhagoriaeth i bawb – Excellence for all
Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

Mr Paul Orders
Prif Weithredwr
Cyngor Sir Caerdydd
Neuadd y Sir
Glanfa'r Iwerydd
Caerdydd
CF10 4UW

28 Mawrth 2014

Annwyl Mr Orders

**Ymweliad monitro Estyn, 10-14 Chwefror 2014**

Yn dilyn canlyniad yr arolygiad o wasanaethau addysg ar gyfer plant a phobl ifanc yn Ionawr 2011, nodwyd bod angen ymweliad monitro gan Estyn ar yr awdurdod fel gweithgarwch dilynol i'r arolygiad.

Cynhaliwyd ymweliad monitro ar 25-29 Mehefin 2012. Cofnodwyd canlyniad yr ymweliad hwnnw mewn llythyr i'r prif weithredwr bryd hynny. Nododd y llythyr fod Cyngor Sir Caerdydd wedi mynd i'r afael i raddau helaeth ag Argymhelliad 1 o'r arolygiad, ac wedi mynd i'r afael yn rhannol â'r pum argymhelliad arall. Amlinellwyd argymhelliad ychwanegol yn y llythyr mewn perthynas â'r gwasanaethau gwella ysgolion. Daeth y llythyr i'r casgliad canlynol:

> O ganlyniad i'r canfyddiadau hyn, bydd yr awdurdod yn parhau yn y categori gweithgarwch dilynol o gael ei fonitro gan Estyn. Bydd tîm o AEM yn dychwelyd ymhen nid llai na chwe mis i fonitro'r cynnydd pellach a wneir. Os nad yw'r awdurdod bryd hynny wedi gwneud digon o gynnydd, bydd arolygwyr yn ystyried p'un a oes angen gwelliant sylweddol ar yr awdurdod.

Cynhaliwyd ail ymweliad monitro rhwng 10-14 Chwefror 2014 ac mae'r llythyr hwn yn cofnodi canlyniadau'r ymweliad hwnnw. Cyhoeddir y llythyr hwn ar wefan Estyn.

Arweiniodd Mr Mark Campion AEM dîm o saith arolygydd ar yr ail ymweliad hwn i adolygu'r cynnydd a wnaed yn erbyn yr argymhellion o'r arolygiad a'r ymweliad monitro cyntaf.

Cynhaliodd y tîm drafodaethau gydag arweinydd y cyngor, aelodau etholedig, y prif weithredwr, uwch swyddogion, penaethiaid ysgolion, llywodraethwyr ysgolion a chynrychiolwyr partneriaethau. Aeth y tîm ati i graffu ar ddogfennaeth gan gynnwys tystiolaeth o'r cynnydd a wnaed yn erbyn pob un o'r argymhellion o'r arolygiad a'r ymweliad monitro cyntaf. Hefyd, buont yn ystyried canlyniadau holl arolygiadau

Estyn o ysgolion yn yr awdurdod a gynhaliwyd ers yr ymweliad monitro cyntaf. Bu'r tîm yn cysylltu hefyd â Swyddfa Archwilio Cymru ac Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC).

Ar ddiwedd yr ymweliad, adroddodd y tîm ei ganfyddiadau i arweinydd y cyngor, yr aelod cabinet ar gyfer addysg, y prif weithredwr a'r cyfarwyddwr addysg.

**Canlyniad yr ymweliad monitro**

Cyn yr ymweliad monitro cyntaf, roedd nifer o newidiadau sylweddol wedi'u gwneud i uwch arweinyddiaeth Cyngor Sir Caerdydd. Ers yr ymweliad monitro cyntaf, gwnaed nifer o newidiadau pellach. Bu trosiant sylweddol o ran swyddi uwch reolwyr, gyda chyfnodau pan oedd swyddi allweddol heb eu llenwi.

Ymgymerodd y cyfarwyddwr presennol addysg a dysgu gydol oes â'i swydd yn Awst 2013. Mae wedi nodi'n glir beth yw'r berthynas rhwng yr awdurdod a'i ysgolion ac mae wedi gweithredu i herio ysgolion yn fwy cadarn. Mae'n gweithio'n agos â'r gwasanaeth gwella ysgolion rhanbarthol i wella ansawdd monitro, her a chymorth ac ymyrraeth ar gyfer ysgolion yng Nghaerdydd. Mae hefyd wedi arwain y gwaith o ddatblygu Cynllun Datblygu Addysg newydd i'w roi ar waith o fis Ionawr 2014.

Ymgymerodd y prif weithredwr presennol â'i swydd yn Rhagfyr 2013. Mae ganddo ddealltwriaeth gadarn o'r meysydd i'w gwella yng ngwasanaethau addysg Caerdydd ar gyfer plant a phobl ifanc, ac mae wedi ymrwymo i gyflymu gweithredu i fynd i'r afael â phryderon. Ar hyn o bryd, mae'n goruchwylio diwygio priodol i'r cynllun corfforaethol.

Fodd bynnag, mae swydd y cynorthwyydd addysg cynorthwyol yn wag o hyd, ac mae swydd y Pennaeth Gwella Ysgolion wedi'i llenwi ar sail interim ar hyn o bryd.

Mae tair blynedd wedi mynd heibio ers i'r awdurdod gael ei arolygu, ac 20 mis ers yr ymweliad monitro cyntaf. Nid yw'r rhan fwyaf o'r deilliannau ar gyfer plant a phobl ifanc wedi gwella'n ddigon da yn ystod y cyfnod hwn, ac nid oes digon o gynnydd wedi'i wneud mewn llawer o feysydd i'w gwella yn y ddarpariaeth ac o ran yr arweinyddiaeth a'r rheolaeth. Felly, bernir bod Cyngor Sir Caerdydd wedi gwneud cynnydd annigonol mewn perthynas â'r argymhellion yn dilyn yr arolygiad craidd yn Ionawr 2011 a'r ymweliad monitro ym Mehefin 2012.

O ganlyniad, mae Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru yn cynyddu lefel y gweithgarwch dilynol. Hyd yn oed o gymryd i ystyriaeth arweinyddiaeth bwrpasol yr Aelod Cabinet a'r camau gweithredu cadarnach a gymerwyd dros y misoedd diwethaf gan uwch reolwyr newydd, ac yn unol â Deddf Addysg 2005, mae Prif Arolygydd Ei Mawrhydi o'r farn fod angen gwelliant sylweddol ar yr awdurdod.

**Cynnydd ar yr argymhellion a amlinellwyd yn yr adroddiad arolygu yn 2011**

**Argymhelliad 1: Gwella arweinyddiaeth strategol y cydweithio rhwng yr awdurdod a'r Bartneriaeth Plant a Phobl Ifanc**

Aethpwyd i'r afael â'r argymhelliad hwn i raddau helaeth.

Yn yr arolygiad gwreiddiol yn 2011, barnwyd bod gweithio mewn partneriaeth yn ddigonol.  Roedd hyn yn rhannol am nad oedd gwaith y bartneriaeth plant a phobl ifanc yn effeithiol o ran gwella gwasanaethau a deilliannau ar gyfer dysgwyr, a hefyd am fod y cynnydd yn rhy araf o ran datblygu gwasanaethau mwy integredig trwy weithio ar y cyd â phartneriaid mewn addysg, gwasanaethau cymdeithasol plant a'r gwasanaethau iechyd.

Yn yr ymweliad monitro yn 2012, barnwyd bod yr awdurdod wedi gwneud cynnydd da o ran symud y gwaith hwn yn ei flaen i'r cyd-destun strategol o ddatblygu un broses gynllunio ar gyfer Bwrdd Partneriaeth Caerdydd.  Bryd hynny, roedd y gwaith hwn wrthi'n cael ei ddatblygu a barnwyd bod yr argymhelliad wedi'i fodloni i raddau helaeth.

Ers hynny, mae'r newidiadau o ran swyddogion ar lefel uwch wedi effeithio ar barhad a chyflymder newid i wella ymgysylltiad strategol ar y cyd y gwasanaethau addysg â'r trefniadau partneriaeth ehangach sy'n datblygu trwy Fwrdd Partneriaeth Caerdydd. Mae'r weinyddiaeth bellach wedi recriwtio cyfarwyddwr addysg a dysgu gydol oes a gychwynnodd yn ei rôl yn Awst 2013. Mae swydd y cyfarwyddwr cynorthwyol yn wag o hyd ac mae'r broses recriwtio'n mynd rhagddi.  Yn gorfforaethol, ymgymerodd y prif weithredwr newydd â'i swydd yn Rhagfyr 2013.

Trwy gydol yr amser hwn mae'r Aelod Cabinet dros Addysg a Dysgu Gydol Oes wedi sicrhau bod ffocws gwelliant wedi'i gynnal yn briodol.  Mae ei gwybodaeth a'i dealltwriaeth eang o'r materion sy'n effeithio ar addysg wedi bod yn hollbwysig i'r awdurdod o ran cynnal ffocws cadarn ar welliant.  Ar y cyd â'r cyfarwyddwr newydd, mae eu gwaith wedi sicrhau bod gwasanaethau addysg yn derbyn neges gyson ynglŷn â'r gwelliannau sydd eu hangen yng Nghaerdydd.

Mae Bwrdd Partneriaeth Caerdydd, gyda chymorth uwch swyddogion, wedi gwneud cynnydd sylweddol o ran datblygu trefniadau partneriaeth ar gyfer plant a phobl ifanc. Mae wedi gosod cyfeiriad clir ar gyfer y gwasanaethau sy'n cefnogi ac yn galluogi plant a phobl ifanc i fynd i mewn i addysg, cyflogaeth a hyfforddiant, aros ynddynt a gwneud cynnydd da ynddynt.  Mae'r Bwrdd wedi llwyddo i integreiddio blaenoriaethau ar gyfer plant a phobl ifanc a oedd cyn hynny o fewn y cynllun iechyd, gofal cymdeithasol a lles, y cynllun diogelwch cymunedol a'r cynllun partneriaeth plant a phobl ifanc, ynghyd â chynllun cymunedol yr awdurdod, i lunio cynllun strategol cyffredinol o'r enw 'Beth sy'n Bwysig'.

Mae'r blaenoriaethau yn y cynllun 'Beth sy'n Bwysig' yn cysylltu'n glir â'r cynllun corfforaethol presennol, ac fe'u hategir yn dda gan gynlluniau gweithredu clir ar gyfer y chwe bwrdd rheoli cymdogaethau lleol.  Mae'r byrddau rheoli cymdogaethau yn llwyddo i ymgysylltu â phartneriaid pwysig fel darparwyr gwasanaethau, trigolion ac aelodau etholedig wrth gynllunio a chyflawni amcanion cytûn i fodloni'r flaenoriaeth leol, sef anghenion plant a phobl ifanc.

Mae Bwrdd Teuluoedd a Phobl Ifanc sydd â ffocws newydd, a'r Bwrdd Datblygu Addysg, yn gweithio ochr yn ochr â'r byrddau rheoli cymdogaethau lleol.  Mae'r trefniadau partneriaeth hyn a'r ymgysylltu ag ysgolion yn dechrau gwella.

Mae'r Cynllun Datblygu Addysg ar gyfer Ionawr 2014 hyd at Medi 2016 yn darparu amcanion clir wedi'u blaenoriaethu, ond gan mai cynllun newydd ydyw, nid yw'r

awdurdod yn gallu dangos eto pa mor llwyddiannus fydd hwn yn dylanwadu ar gynllunio strategol blaenoriaethau ar gyfer plant a phobl ifanc.

**Argymhelliad 2: Gwella effeithiolrwydd y cynllunio partneriaeth ar gyfer deilliannau mewn meysydd blaenoriaeth**

Aethpwyd i'r afael â'r argymhelliad hwn yn rhannol.

Mae Bwrdd Partneriaeth Caerdydd wedi sefydlu partneriaethau adeiladol ac wedi rhoi ystod o strategaethau defnyddiol ar waith sy'n canolbwyntio'n briodol ar fynd i'r afael â blaenoriaethau allweddol i wella presenoldeb, lleihau gwaharddiadau, a chynyddu niferoedd y bobl ifanc sydd mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant. Er enghraifft, mae'r Grŵp Ymgysylltu â Phobl Ifanc wedi cydlynu gwaith amrywiaeth o randdeiliaid wrth gynllunio dulliau gweithredu a mentrau ar y cyd i fodloni'r blaenoriaethau hyn a nodwyd, ac mae'r strwythur cymdogaethau lleol yn cynnig cyfrwng defnyddiol ar gyfer cyflawni deilliannau gwell. Mae'r dulliau hyn yn dechrau cael effaith gadarnhaol ar bob un o'r meysydd hyn.

Mae'r awdurdod wedi dirprwyo cyllid ac wedi gweithio'n effeithiol gydag ysgolion i sefydlu fframwaith pum cam ar gyfer rheoli presenoldeb sy'n diffinio'n glir rolau a chyfrifoldebau cymharol ysgolion a gwasanaethau canolog. Mae'r strategaeth hon yn golygu bod cysylltiad agosach rhwng ysgolion uwchradd a'u hysgolion cynradd partner. Mae'n amlinellu ystod graddedig o gamau gweithredu, trwy ymyriadau priodol mewn ysgolion i gychwyn, ond yn gynyddol drwy gymorth â ffocws gan y Gwasanaeth Lles Addysg, ac atyfeirio iddo. Mae'r camau hyn wedi cyfrannu at welliant sylweddol mewn presenoldeb.

Mae'r awdurdod yn gweithio'n well gydag ysgolion i'w helpu i reoli ymddygiad a gwaharddiadau yn fwy effeithiol. Mae wedi cyflwyno dull gweithredu pum cam priodol sy'n amlinellu'n glir gyfrifoldebau'r ysgol a'r awdurdod lleol o ran cadw disgyblion mewn addysg. Mae'r dulliau hyn yn helpu gwella ymddygiad ac yn cyfrannu at ostyngiad yn y gyfradd waharddiadau. Fodd bynnag, mae cyfraddau gwaharddiadau cyfnod penodol yn rhy uchel o hyd.

Yn y tair blynedd diwethaf y mae data wedi ei wirio ar gael ar eu cyfer, gan Gaerdydd y bu'r gyfran uchaf o bobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant yn 16 oed yng Nghymru. Mae ystod eang o bartneriaid yn gweithio gyda'i gilydd i leihau niferoedd y bobl ifanc 16 i 24 oed nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant. Mae hyn yn seiliedig ar ddull amlasiantaeth gyda chyfraniad sylweddol, er enghraifft, gan bartneriaid busnes lleol a sefydliadau addysg bellach, y Ganolfan Byd Gwaith, y Gwasanaeth Ieuenctid, Cymunedau yn Gyntaf a Theuluoedd yn Gyntaf. Bu mwy o bwyslais ar nodi'n gynnar y bobl ifanc â'r perygl mwyaf iddynt beidio ag ymgysylltu ag addysg neu hyfforddiant, yn enwedig drwy'r defnydd o'r Proffil Asesu Bod yn Agored i Niwed (Vulnerability Assessment Profile)[1]. Mae'r bartneriaeth â Gyrfa Cymru yn helpu gwella olrhain disgyblion a rhannu data. Hefyd, mae cymorth wedi'i ddyrannu a'i gydlynu'n well, ac mae gwell pwyslais ar ddarparu rhaglenni ymyrraeth addas trwy waith oedolyn cyfrifol pwysig. Mae'r strategaethau

[1] Mae'r Proffil Asesu Bod yn Agored i Niwed yn defnyddio ystod o wybodaeth i roi proffil unigol manwl ar gyfer pobl ifanc sy'n helpu asiantaethau i asesu i ba raddau y maent yn agored i niwed, a phenderfynu ar y lefelau angenrheidiol o ymyrraeth ar draws yr holl wasanaethau.

hyn yn cyfrannu at welliant yng nghyfran y bobl ifanc sy'n aros mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant.

Trwy'r Bwrdd Datblygu Addysg, mae'r awdurdod yn dechrau sefydlu partneriaethau agosach gydag addysg uwch a'r gymuned menter a busnes, er enghraifft i ehangu cyfleoedd addysgol a chyflogaeth ar gyfer myfyrwyr ôl-16. Mae'n rhy gynnar i arfarnu effaith y partneriaethau newydd hyn.

Dros y misoedd diwethaf, mae'r awdurdod wedi gweithio'n agos â'i bartneriaid yng ngwasanaeth gwella ysgolion y consortiwm rhanbarthol. Mae'r aelod cabinet dros addysg ac uwch swyddogion wedi cynnal deialog gadarn i wella trefniadau llywodraethu gyda'r consortiwm rhanbarthol ac i ddylanwadu ar waith ei wasanaeth gwella ysgolion. Mae hyn yn helpu sicrhau bod y gwasanaeth wedi'i drefnu a'i reoli'n fwy priodol i fodloni anghenion yr awdurdod a'i ysgolion.

Er gwaethaf y partneriaethau sy'n datblygu trwy fwrdd partneriaeth Caerdydd a gwasanaeth gwella ysgolion y consortiwm rhanbarthol, nid yw'r gwaith ers yr arolygiad a'r ymweliad monitro cyntaf wedi dangos digon o effaith ar godi safonau ar gyfer yr holl blant a phobl ifanc.

**Argymhelliad 3: Gwella'r craffu ar weithio mewn partneriaeth**

Aethpwyd i'r afael â'r argymhelliad hwn yn rhannol.

Yn yr arolygiad gwreiddiol yn 2011, barnwyd mai digonol oedd yr arweinyddiaeth. Bryd hynny, roedd y Pwyllgor Craffu Plant a Phobl Ifanc yn datblygu ei rôl yn dda i ganolbwyntio mwy ar fonitro deilliannau dysgwyr. Fodd bynnag, nid aeth ati'n gyson i graffu ar ddarpariaeth partneriaeth ehangach y tu allan i'r gwasanaeth statudol, ac nid oedd swyddogion yn gallu cyflwyno trosolwg strategol o'r ddarpariaeth rhwng yr awdurdod a'r Bartneriaeth Plant a Phobl Ifanc.

Mae'r Pwyllgor Craffu Plant a Phobl Ifanc wedi parhau i graffu ar wasanaethau addysg a'u herio. Erbyn hyn, mae cylch gwaith y pwyllgor yn cynnwys craffu ar gynllun gwella'r awdurdod a'r gwasanaethau ehangach i gefnogi plant a phobl ifanc a gyflwynir trwy drefniadau partneriaeth Bwrdd Partneriaeth Caerdydd.

Mae'r Pwyllgor Craffu Plant a Phobl Ifanc yn derbyn adroddiadau sy'n cynnwys ystod eang o ddata perthnasol. Mae'r adroddiad perfformiad blynyddol diweddar yn cynnwys crynodeb cychwynnol defnyddiol ar gyfer y pwyllgor. Hefyd, mae'r adroddiad yn cynnwys data am berfformiad ysgolion unigol ac mae'r tryloywder hwn o gymorth. Fodd bynnag, nid yw'r dadansoddiad o'r data a ddarparwyd yn ddigon clir bob amser i helpu'r pwyllgor i wneud penderfyniadau gwybodus.

Adeg yr ymweliad monitro cyntaf yn 2012, roedd yr awdurdod wedi sefydlu panel amlasiantaeth i wella'r gwaith o graffu ar waith partneriaeth, a oedd megis dechrau datblygu ei raglen waith. Mae'r panel craffu amlasiantaeth hwnnw ar gyfer Bwrdd Partneriaeth Caerdydd wedi parhau i ddatblygu ei rôl. Mae'n cynnwys sefydliadau partner yn dda wrth graffu ar weithgareddau partneriaeth. Mae'r panel yn mynd ati i graffu ar ystod eang o wasanaethau cymorth ar gyfer plant a phobl ifanc. Mae'r rhain yn cynnwys ymgysylltu â dysgwyr, teuluoedd a chymunedau, gwasanaethau daearyddol, gwybodaeth am fusnes a blaenoriaethau partneriaeth.

Fodd bynnag, nid oes digon o eglurder ynglŷn â'r berthynas rhwng rôl ehangach ail-ddiffiniedig y Pwyllgor Craffu Plant a Phobl Ifanc, sy'n cynnwys gweithgareddau partneriaeth, a rôl Panel Craffu Partneriaeth Caerdydd. Mae hyn yn golygu nad oes gan aelodau etholedig drosolwg strategol na dealltwriaeth ddigon da o berfformiad gwasanaethau ar gyfer plant a phobl ifanc ar draws addysg yn yr awdurdod a Bwrdd Partneriaeth Caerdydd.

**Argymhelliad 4: Parhau i godi safonau yng nghyfnod allweddol 4, gwella presenoldeb, lleihau gwaharddiadau a lleihau nifer y bobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant**

Aethpwyd i'r afael â'r argymhelliad hwn yn rhannol.

Nid oes digon o gynnydd wedi'i wneud o ran safonau mewn ysgolion ers yr arolygiad yn 2011 a'r ymweliad monitro yn 2012. Nododd y llythyr o'r ymweliad monitro cyntaf bryderon ynglŷn â pherfformiad ysgolion cynradd yn ogystal â'r pryderon ynglŷn ag ysgolion uwchradd.

Pan gaiff ysgolion yng Nghaerdydd eu cymharu ag ysgolion tebyg, gan ddefnyddio canran y disgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim, mae perfformiad yn 2013 ychydig islaw'r cyfartaledd yn y Cyfnod Sylfaen a chyfnod allweddol 2. Ar gyfer Dangosydd y Cyfnod Sylfaen a'r Dangosydd Pwnc Craidd yng nghyfnod allweddol 2, nid oes digon o ysgolion yn y 25% uchaf o ysgolion.

Pan gaiff ysgolion yng Nghaerdydd eu cymharu ag ysgolion tebyg, yng nghyfnod allweddol 3, mae perfformiad wedi parhau uwchlaw'r cyfartaledd. Fodd bynnag, mae perfformiad yng nghyfnod allweddol 4 wedi gwanhau dros y 3 blynedd diwethaf. Mae perfformiad yn uwch yn 2013 ar gyfer pedwar o'r pum prif ddangosydd o gymharu â 2011. Fodd bynnag, mae Cymru wedi gwella ar gyfradd gyflymach na Chaerdydd yn ystod y cyfnod hwn.

Yn 2013, mae llawer o ysgolion yng Nghaerdydd yn y 50% isaf o ysgolion ar gyfer pob un o'r pum prif ddangosydd yng nghyfnod allweddol 4, a dim ond ychydig o ysgolion sydd yn y 25% uchaf. Ar gyfer trothwy Lefel 2 yn cynnwys Saesneg neu Gymraeg a mathemateg, mae tri chwarter yr ysgolion yn y 50% isaf. Dim ond dwy ysgol sydd mewn chwarter uwch ar gyfer y dangosydd hwn nag oeddent yn 2011, ond mae saith o ysgolion mewn chwarter is. Ar gyfer dangosydd Lefel 1, ychydig o ysgolion sydd yn y 25% uchaf ac mae bron i hanner yr ysgolion yn y 25% isaf. Nid yw cyfran y disgyblion sy'n gadael yr ysgol heb gymhwyster ffurfiol yn cymharu'n dda ag awdurdodau lleol eraill.

Mae Llywodraeth Cymru yn gosod meincnodau ar gyfer perfformiad ar sail hawl i gael prydau ysgol am ddim. Yn 2013, rhagorodd Caerdydd ar y meincnod ar gyfer y Dangosydd Pwnc Craidd yng nghyfnod allweddol 3, bodlonodd y meincnod ar gyfer trothwy Lefel 2 yn cynnwys Saesneg neu Gymraeg a mathemateg, ond ni fodlonodd y meincnod ar gyfer y sgôr pwyntiau ehangach cyfartalog wedi'i chapio yng nghyfnod allweddol 4.

Ar gyfer pob un o'r 5 prif ddangosydd yng nghyfnod allweddol 4 yn 2013, mae disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim yng Nghaerdydd yn perfformio'n waeth na'r rheiny ledled Cymru. Mae'r bwlch mewn perfformiad rhwng disgyblion sy'n

gymwys i gael prydau ysgol am ddim a'r rhai nad ydynt yn gymwys yn fwy yng Nghaerdydd nag yng Nghymru.

Ar gyfer pob un o'r prif ddangosyddion ac eithrio trothwy Lefel 1 yng nghyfnod allweddol 4 yn 2013, mae'r bwlch mewn perfformiad rhwng bechgyn a merched ychydig yn llai yng Nghaerdydd na chyfartaledd Cymru.  Fodd bynnag, y rheswm am hyn yw perfformiad cymharol wan merched yng Nghaerdydd.

Rhwng 2011 a 2013, roedd gwelliant cyson mewn presenoldeb ysgolion cynradd a gwelliant sylweddol mewn presenoldeb ysgolion uwchradd.  Dros y cyfnod hwn, fe wnaeth safle Caerdydd o'r 22 o awdurdodau lleol yng Nghymru wella o'r 16eg safle i'r 11eg safle ar gyfer presenoldeb ysgolion cynradd, ac o'r 21ain safle i'r 9fed safle ar gyfer presenoldeb ysgolion uwchradd.  Yn 2012-2013, roedd bron i hanner yr ysgolion uwchradd yn y chwarter uchaf o gymharu ag ysgolion tebyg o ran y meincnod prydau ysgol am ddim, ac roedd tua dwy ran o dair yn yr hanner uchaf.  Mae data heb ei ddilysu a ddarparwyd gan yr awdurdod lleol yn awgrymu y bu gwelliant pellach mewn presenoldeb yn yr ysgolion cynradd ac uwchradd yn ystod y flwyddyn academaidd bresennol.

Bu gostyngiad nodedig yn y gyfradd ar gyfer gwaharddiadau cyfnod penodol mewn ysgolion uwchradd.  Er hyn, mae'r gyfradd ar gyfer gwaharddiadau cyfnod penodol yn parhau'n rhy uchel ac mae wedi bod yr ail uchaf yng Nghymru dros y tair blynedd diwethaf, er bod nifer gyfartalog y diwrnodau a gollwyd o'r ysgol fesul gwaharddiad cyfnod penodol wedi gostwng ac mae ychydig yn well na chyfartaledd Cymru.

Gwelwyd gwelliant cyson yng nghyfradd y bobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant yn 16 oed.  Fodd bynnag, Caerdydd yw'r awdurdod sy'n perfformio waethaf yng Nghymru o hyd.  Mae data ar gyfer 2012-2013 a ddarparwyd gan yr awdurdod lleol yn awgrymu gwelliant pellach yn y ffigurau hyn.

**Argymhelliad 5:  Gwella prosesau rheoli perfformiad i sicrhau dull cyson wrth gyflawni amcanion**

Aethpwyd i'r afael â'r argymhelliad hwn yn rhannol.

Nid yw prosesau rheoli perfformiad wedi bod yn ddigon cadarn i sicrhau bod cynnydd addas wedi'i wneud o ran bodloni amcanion yr awdurdod.  Mae hyn yn amlwg drwy'r amrywiaethau mawr mewn perfformiad yn ysgolion yr awdurdod a'r gyfran gymharol uchel o ysgolion y barnwyd bod angen gweithgarwch dilynol ynddynt.  Mae'r awdurdod yn casglu ystod eang o ddata i olrhain cynnydd gyda mentrau penodol.  Fodd bynnag, nid yw wedi mynd ati'n gyson i ddadansoddi ac arfarnu'r wybodaeth hon yn ddigon cadarn i fesur cynnydd yn gywir, i nodi'r meysydd allweddol hynny y mae angen eu gwella ac i dargedu mentrau'n effeithiol.

Fe wnaeth adolygiad cymheiriaid diweddar gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, a gomisiynwyd gan y Cyngor, nodi'r angen i greu 'diwylliant perfformiad', a dywedodd fod 'trefniadau hunanarfarnu, cynllun gweithredu a threfniadau craffu aneffeithiol yn gyffredinol' gan y gyfarwyddiaeth addysg.  Derbyniwyd canfyddiadau'r adolygiad cymheiriaid hwn gan gan y Cyngor.

Yn dilyn yr adolygiad cymheiriaid, bu ymrwymiad corfforaethol i gryfhau diwylliant a gwella prosesau rheoli perfformiad. Mae disgwyliad bod angen i reolaeth meysydd gwasanaeth wella ac y dylai fod trafodaethau rheolaidd a chadarn am berfformiad ac adolygiadau ffurfiol o berfformiad swyddogion unigol yn erbyn amcanion penodol. Mae hyn yn dechrau digwydd. Mae amcanion perfformiad unigol yn cyd-fynd yn fwy eglur â blaenoriaethau cynlluniau gwasanaeth a ffrydiau gwaith.

Mae'r awdurdod wedi gwella ei brosesau ar gyfer monitro, arfarnu ac adrodd ar gynnydd. Mae'r adroddiad mwyaf diweddar gan y cyfarwyddwr addysg a dysgu gydol oes yn rhoi dadansoddiad manwl a realistig o berfformiad ysgolion a'r gwasanaeth ieuenctid yng Nghaerdydd yn 2012-2013. Mae'r adroddiad yn nodi rhai meysydd lle nad yw perfformiad yn ddigon da a lle mae cynnydd wedi bod yn rhy araf. Mae'n cynnwys gwybodaeth dryloyw am berfformiad yr holl ysgolion cynradd ac uwchradd, gan ddynodi bod amrywiadau mawr ym mherfformiad ysgolion â lefelau amddifaded tebyg. Fodd bynnag, nid yw'r adroddiad yn amlygu'n ddigon clir y materion allweddol y mae angen mynd i'r afael â nhw.

Mae'r Cynllun Datblygu Addysg ar gyfer Ionawr 2014 hyd at Fedi 2016 wedi'i alinio'n dda â'r strategaeth 'Beth sy'n Bwysig' a'r cynllun corfforaethol. Mae'n amlinellu ei flaenoriaethau a'i strategaethau yn glir, ac yn canolbwyntio ar gyflawni nifer is o ddangosyddion perfformiad allweddol. Mae hyn yn helpu diffinio'r agenda gwella yn fwy cywir. Mae cynlluniau busnes gwasanaethau yn cael eu datblygu i fynd i'r afael â'r blaenoriaethau penodol yn y Cynllun Datblygu Addysg.

**Argymhelliad 6: Gwella'r wybodaeth, y cyngor a'r cymorth ar gyfer holl rieni'r dysgwyr sydd angen asesiad statudol o anghenion addysgol arbennig disgyblion**

Aethpwyd i'r afael â'r argymhelliad hwn yn llawn.

Mae gwasanaeth anghenion dysgu ychwanegol a chynhwysiant yr awdurdod wedi cyflwyno ystod o fesurau effeithiol i wella'r wybodaeth, y cyngor a'r cymorth i rieni disgyblion sy'n mynd trwy broses asesu statudol. Mae wedi ehangu'r cyngor a'r cymorth i rieni'r holl ddisgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol. Mae'r awdurdod wedi cydlynu ei waith yn effeithiol i wella'r maes gwaith hwn ac i fynd i'r afael â'r argymhelliad hwn.

Un nodwedd bwysig yn llwyddiant yr awdurdod yw rôl uwch y tîm gwaith achos. Mae'r awdurdod wedi datblygu medrau ac arbenigedd y tîm gwaith achos drwy hyfforddiant sensitif a chynyddu ymwybyddiaeth. Erbyn hyn, mae'r tîm hwn yn darparu gwasanaeth da i rieni. Yn ogystal, mae'r tîm yn cysylltu'n effeithiol ac yn darparu cymorth da i ysgolion. Mae hyn yn sicrhau bod ysgolion, yn gyffredinol, yn cael gwybodaeth berthnasol am anghenion disgyblion, a hynny mewn modd amserol. Mae hyn yn helpu ysgolion i gynllunio darpariaeth addas a sicrhau bod cymorth yn briodol i anghenion y disgyblion.

Hefyd, mae'r awdurdod wedi datblygu partneriaeth well gyda'r Prosiect Ymgynghorol Anghenion Arbennig (SNAP), ac mae hyn wedi cael effaith gadarnhaol ar sut y mae'r awdurdod yn gweithio gyda rhieni. Mae swyddogion SNAP bellach yn aelodau o'r panel cynghori ar achosion sy'n dyrannu adnoddau ychwanegol i ysgolion. Mae'r gwaith hwn yn galluogi SNAP i rannu ei arbenigedd yn gweithio gyda rhieni gydag

aelodau eraill y panel. Oherwydd hyn, mae'r awdurdod yn datblygu ei ddealltwriaeth o anghenion rhieni. Hefyd, mae'r gwaith hwn yn helpu SNAP i ddeall y materion y mae'n rhaid i'r awdurdod eu hystyried wrth benderfynu ar y modd gorau i ddyrannu adnoddau. Bellach, mae swyddogion SNAP yn cael gwybodaeth gyfoes y byddant yn ei rhannu gyda rhieni'r disgyblion unigol a drafodwyd. O ganlyniad, mae rhieni yn deall cynlluniau'r awdurdod ar gyfer eu plentyn ac mae llai o rieni yn apelio i'r tribiwnlys anghenion arbennig erbyn hyn.

Mae'r awdurdod wedi gwella ei ddogfennaeth i rieni ynglŷn ag anghenion dysgu ychwanegol. Mae gwybodaeth i arwain a chynghori rhieni ar gael yn rhwyddach ar wefan yr awdurdod.

Mae'r awdurdod wedi sefydlu system dda o grwpiau cymorth i rieni i gyfarfod â'i gilydd i rannu'u profiadau a thrafod pryderon. Mae ystod o weithwyr proffesiynol o asiantaethau perthnasol a sefydliadau gwirfoddol yn cefnogi'r grwpiau hyn. Gall rhieni yn y grwpiau hyn elwa ar gyngor ynglŷn â phrosesau statudol nawr. Gallant hefyd fanteisio ar gyfleoedd hyfforddi ar ystod o faterion, yn cynnwys rheoli ymddygiad plant a chefnogi datblygu medrau cyfathrebu.

**Cynnydd yn erbyn yr argymhelliad ychwanegol a amlinellwyd yn y llythyr ar gyfer yr ymweliad monitro yn 2012**

**Argymhelliad: Gwneud yn siŵr bod y trefniadau ar gyfer cyflwyno gwasanaethau gwella ysgolion yn herio ac yn cefnogi pob ysgol yn effeithiol, er mwyn gwella safonau ar gyfer dysgwyr ym mhob cyfnod allweddol**

Aethpwyd i'r afael â'r argymhelliad hwn yn rhannol.

Yn ddiweddar, mae'r awdurdod wedi gwella ei brosesau i gefnogi, herio ac ymyrryd mewn ysgolion. Yn gynyddol, mae diwylliant cadarn o herio, yn cael ei arwain gan yr aelod cabinet dros addysg a dysgu gydol oes a'r cyfarwyddwr addysg a benodwyd yn ddiweddar. Mae swyddogion yn dechrau mynd i'r afael â thanberfformio yn gadarnach. Fodd bynnag, mae'r trefniadau gwell hyn i nodi ac ymyrryd mewn ysgolion sy'n tanberfformio yn drefniadau cymharol ddiweddar, ac nid ydynt wedi cael amser eto i gael digon o effaith ar safonau cyrhaeddiad mewn ysgolion.

Mae uwch swyddogion ac aelodau etholedig allweddol yn deall yn dda yr heriau sy'n wynebu'r gwasanaeth addysg, ac yn cydnabod yr angen i fynd i'r afael â thanberfformio mewn ysgolion. Mae'r cyfarwyddwr addysg a'r aelod cabinet dros addysg a dysgu gydol oes wedi ymgysylltu'n dda â phenaethiaid ac wedi ymgymryd â rhaglen o ymweliadau ag ysgolion. Mae cynlluniau cymorth gan yr ysgolion a nodwyd i gael cymorth dwys, ac mae eu cynnydd yn cael ei herio'n gadarn gan y cyfarwyddwr ac uwch swyddogion. Mae uwch swyddogion o'r awdurdod lleol yn gweithio'n fwyfwy agos â'r rheini o'r gwasanaeth gwella ysgolion rhanbarthol i wneud yn siŵr bod ffocws cyson ar godi safonau.

Rhoddir arweiniad clir i arweinwyr systemau o'r gwasanaeth gwella ysgolion rhanbarthol i'w cynorthwyo i herio ysgolion. Fodd bynnag, nid yw arweinwyr systemau yn gyson o ran y defnydd a wnânt o'r arweiniad hwn. Mae prosesau i sicrhau ansawdd gwaith arweinwyr systemau wedi'u cryfhau. Ond nid yw'r rhain yn ddigon sicr eto, fodd bynnag, i sicrhau bod yr holl swyddogion yn cynnig her drwyadl i

ysgolion.  O ganlyniad, er bod gan yr awdurdod enghreifftiau lle mae swyddogion rhanbarthol a'i swyddogion ei hun yn nodi ysgolion sy'n tanberfformio yn gywir ac yn ymyrryd yn effeithiol, mewn ysgolion eraill nid yw tanberfformio'n cael ei nodi'n ddigon cyflym.  Ers yr ymweliad monitro yn 2012, nodwyd bod angen gwelliant sylweddol neu fesurau arbennig ar ddwy ysgol gynradd a thair ysgol uwchradd yn dilyn arolygiad gan Estyn.  Hefyd, ni wnaeth ysgol gynradd yr oedd angen gwelliant sylweddol arni wella'n ddigon cyflym, a nodwyd bod angen rhoi mesurau arbennig ar waith ynddi.

Mae arweinwyr systemau yn defnyddio fframwaith cymorth a her y consortiwm rhanbarthol i ddosbarthu ysgolion yn ôl risg ac i gynllunio ymyriadau priodol.  Mae arweinwyr systemau, swyddogion yr awdurdod lleol ac ysgolion yn defnyddio ystod dda o ddadansoddiadau data i gyfrannu at y categoreiddio hwn.  Mae penaethiaid a chyrff llywodraethol yn deall yn dda ym mha gategori y mae eu hysgol, er bod lleiafrif yn llai eglur ynglŷn â sut yn union y deuir i'r penderfyniad hwn neu'r cymorth y byddant yn ei gael o ganlyniad.  Mae uwch swyddogion wedi adolygu'r defnydd o'r fframwaith hwn ac wedi darparu arweiniad er mwyn gwella'r defnydd a wneir ohono. Fodd bynnag, mae gormod o amrywio o hyd o ran y modd y mae swyddogion yn cymhwyso meini prawf, ac nid yw'r cyswllt rhwng y categori ysgol a pherfformiad ei disgyblion yn glir bob amser.  Mae swyddogion wedi gwella'r defnydd a wnânt o ddata i herio ysgolion, ond nid ydynt yn defnyddio data'n ddigon cywir o hyd i dargedu'n union lle ceir tanberfformio.

Mae swyddogion yn darparu adroddiadau perfformiad blynyddol i ysgolion yn cwmpasu ag agweddau ar arweinyddiaeth, darpariaeth a safonau cyrhaeddiad.  Rhai arfarnol yw'r adroddiadau hyn gan mwyaf, ac ar y cyfan maent yn nodi meysydd i'w gwella yn ogystal â chryfderau.  Mae ychydig ohonynt yn cynnwys dadansoddiad defnyddiol o ansawdd arweinyddiaeth yr ysgol.  Fodd bynnag, nid yw pob un ohonynt yn cynnwys negeseuon ddigon eglur i ysgolion i wybod sut i wella, ac mewn gormod o'r adroddiadau, nid yw diffygion yn yr arweinyddiaeth a'r rheolaeth yn cael eu hesbonio'n glir.

Mae swyddogion hefyd yn darparu cofnodion ysgrifenedig o ymweliadau ag ysgolion. Fodd bynnag, mae llawer ohonynt yn ddisgrifiadol ac mae camau gweithredu cytûn yn amhendant heb ddigon o ffocws ar eu heffaith ar addysgu a dysgu.  Nid yw adroddiadau yn rhoi syniad ddigon clir i ysgolion ynglŷn â'r ffordd ymlaen, nac yn herio pob ysgol i wella.

Caiff adolygiadau perfformiad blynyddol ysgolion eu hanfon i'r corff llywodraethol. Mae arweinwyr systemau yn mynychu cyfarfodydd llywodraethwyr i gyflwyno'r prif negeseuon o'r adroddiadau hyn, ac mae hynny'n fuddiol.  Fodd bynnag, mae rhai llywodraethwyr yn aneglur o hyd ynglŷn â'r meysydd i'w gwella yn eu hysgolion.

**Meysydd eraill i'w gwella**

Nododd y llythyr o'r ymweliad monitro cyntaf 'nad oedd cynlluniau gwella'r awdurdod ar gyfer disgyblion ag anghenion addysgol ychwanegol' yn 'ddigon strategol bob amser'.  Ers yr ymweliad diwethaf, mae'r awdurdod wedi gweithredu i wella ei ddull strategol o reoli ei wasanaethau anghenion dysgu ychwanegol.  Mae dogfen ddiweddar, 'Arfer Ragorol wrth Reoli Cynhwysiant', yn amlinellu'n fuddiol rôl yr awdurdod a disgwyliadau ysgolion wrth reoli darpariaeth ar gyfer disgyblion ag

anghenion dysgu ychwanegol.  Fodd bynnag, mae dryswch o hyd ymhlith penaethiaid ynglŷn ag agweddau ar ddarpariaeth anghenion ychwanegol.  Er enghraifft, nid yw holl benaethiaid canolfannau adnoddau arbenigol ac ysgolion arbennig yn glir ynghylch meini prawf derbyn.

Mewn ystod o gyfweliadau, codwyd pryderon ynglŷn â chymorth teg ar gyfer ysgolion cyfrwng Cymraeg.  Yn wreiddiol, cododd y pryderon hyn mewn ymateb i gwestiynau ynghylch cymorth i ddisgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol.  Fodd bynnag, roedd penaethiaid a llywodraethwyr yn glir nad problem ar gyfer gwasanaethau anghenion dysgu ychwanegol yn benodol yw hon ond yn hytrach pryder ehangach, mwy cyffredinol, nad yw'r gwasanaethau cymorth ar gyfer ysgolion cyfrwng Cymraeg wedi datblygu'n ddigon cyflym ochr yn ochr â'r cynnydd yn nifer y lleoedd yn yr ysgolion hyn.  Bydd eich arolygwyr cyswllt yn archwilio'r pryderon hyn gyda chi fel rhan o'u gwaith monitro parhaus.

**Argymhellion**

Mae'r argymhellion o'r arolygiad yn 2011 a'r ymweliad monitro yn 2012 wedi'u diwygio.  Er mwyn sicrhau'r gwelliannau angenrheidiol mewn modd amserol, dylai'r awdurdod wneud y canlynol:

- Codi safonau, yn enwedig yng Nghyfnod Allweddol 4;
- Lleihau gwaharddiadau a lleihau cyfran y bobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant ôl-16;
- Gwneud yn siŵr bod y trefniadau ar gyfer cyflwyno gwasanaethau gwella ysgolion yn herio ac yn cynorthwyo pob ysgol yn effeithiol, er mwyn gwella safonau ar gyfer dysgwyr ym mhob cyfnod allweddol;
- Gwella effeithiolrwydd cynllunio ar y cyd ar draws yr ystod gweithio mewn partneriaeth;
- Gwella prosesau rheoli perfformiad er mwyn sicrhau dull cyson wrth gyflawni amcanion; a
- Gwella'r broses craffu ar wasanaethau addysg yr awdurdod lleol a gweithio mewn partneriaeth.

**Camau nesaf**

Mae gan yr awdurdod 50 diwrnod i baratoi cynllun gweithredu.  Mae angen i'r cynllun gweithredu hwn amlinellu'r camau y bydd yr awdurdod yn eu cymryd i roi'r gwelliannau angenrheidiol ar waith.  Mae angen i'r cynllun nodi'n glir pwy fydd yn cymryd cyfrifoldeb am dasgau, cynnwys cerrig milltir, a nodi adnoddau perthnasol a sut y dangosir tystiolaeth o lwyddiant.  Yn ychwanegol at yr argymhellion a roddwyd, dylai'r awdurdod ymateb i'r materion eraill a nodwyd yn y llythyr hwn.

Bydd eich arolygwyr cyswllt Estyn, Huw Davies AEM a Sarah Lewis AEM, yn cytuno cynllun ar gyfer monitro yn y dyfodol gyda chi.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn i Lywodraeth Cymru ac i Swyddfa Archwilio Cymru, er gwybodaeth.

Yn gywir

**Clive Phillips**
Cyfarwyddwr Cynorthwyol

cc: Llywodraeth Cymru
Swyddfa Archwilio Cymru